

Mark Drakeford AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

29 Tachwedd 2017

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

**Yr ymchwiliad i wydnwch a pharodrwydd – cwestiynau nad oedd amser i'w holi yn ystod y sesiwn ar 20 Tachwedd 2017**

Diolch i chi a'ch swyddogion am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 20 Tachwedd fel rhan o'n gwaith ar wydnwch a pharodrwydd yng nghyd-destun ymadael â'r UE.


Roedd y sesiwn yn ddefnyddiol iawn i'r Aelodau, ond oherwydd diffyg amser nid oedd modd holi'r holl gwestiynau y byddem wedi hoffi eu cynnwys. Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech anfon ymateb atom i'r cwestiynau a ganlyn:

- Pa sgysiau a gafwyd rhwng Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU ynghylch sut y bydd y Grant Bloc yn newid ar ôl Brexit;
- Sut y defnyddir y gronfa wrth gefn newydd ar gyfer Cymru i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rhag unrhyw effeithiau negyddol posibl yn sgil Brexit ac i ymhelaethu ar sut y gallai'r £75 miliwn a glustnodwyd yn y gronfa wrth gefn ar gyfer 2019/20 gael ei wario;
- A yw Llywodraeth Cymru wedi sicrhau arian drwy fformiwla Barnett o ganlyniad i'r £250 miliwn a glustnodwyd gan y Trysorlys i baratoi ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE (y cyfeirir ato ym [mharagraff 20 o'ch papur](#));
- A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw asesiad economaidd manwl o effaith ffyrdd gwahanol o adael yr UE ar economi Cymru (yn ychwanegol at [Adroddiad y Prif Economegydd](#) y cyfeiriwyd ato yn y dystiolaeth)



Byddwn yn hynod ddiolchgar pe gellid anfon ymateb erbyn 15 Rhagfyr os yw'n bosibl, er mwyn llywio trafodaethau'r Aelodau.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style and is set against a light yellow rectangular background.

David Rees AC,

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

